

RHIFYN 8 - Mawrth / Ebrill 2017



PROSIECT PARASITOLEG CYSWLLT FFERMIO

Defnyddio gwybodaeth o gyfrifon wyau ysgarthol (FEC) er mwyn mapio heintiad llyngyr.



ASTUDIAETH ACHOS FFRWYTHLONDEB Y FUCHES LAETH

Mae targedu gwelliannau ffrwythlondeb yn y fuches laeth yn helpu ffermwyr i dorri costau a rhoi hwb i berfformiad.



CYFLWYNIAD



Er bod y misoedd diwethaf wedi bod yn rhai caredig o ran tywydd, ac o ganlyniad rydym wedi troi'r gwartheg stôr i gyd allan i borfa ar yr 11eg o Fawrth (y cynharaf erioed), fel y rhan fwyaf ohonoch mae'n siŵr, dwi'n edrych ymlaen yn arw tuag at yr haf a chael troi'r buchod a'u lloeau allan!

Oherwydd y tywydd da ar ddechrau'r gaeaf y llynedd, bu'r gaeaf ychydig yn fyrrach eleni yma ar fferm Cae Haidd, gyda'r gwartheg yn dod i mewn ychydig yn hwyrach na'r arfer ar ddiwedd mis Hydref.

Dechreuodd y tymor lloia yma ddechrau mis Ionawr, ac eto mae'r coleri wedi mynd ar y gwartheg i hwyluso'r gwaith o'u gweld yn gofyn tarw i gael rhoi Al iddynt. Os bydd pob dim yn mynd fel y dylai, mae'n edrych yn debyg y bydd y mynegai lloia wedi ei leihau'n sylweddol erbyn eleni o'i gymharu â llynedd.

Gwerthwyd ychydig o wartheg stôr 17 mis oed ym marchnad Llanrwst ddechrau Chwefror - dyma'r rhai ieuengaf lleiaf fel rheol, gyda'r mwyafrif yn cael eu gwerthu oddi ar y borfa ddechrau mis Hydref.

Sganiodd y defaid rhywbeth yn debyg i'r arfer eleni, gyda'r defaid Hanner Brid (Halfbred) yn sganio 174%, y defaid Cymreig Penderyn ar 173% a'r defaid mynydd Cymreig yn sganio 145%. Yn amlwg y canran fagu yw'r ffigwr pwysig ac mae hwn eto i'w ddarganfod.

Dechreuwyd porthi silwair i'r defaid ddechrau mis Ionawr, ac yn dilyn be'dwi wedi ei weld eleni yn sgil y prosiect 'Colledion Silwair' bydd angen gwella'r system o borthi silwair ar gyfer y flwyddyn nesaf i leihau gwastraffu. Ar ôl sganio ddechrau Ionawr, bydd y defaid sydd yn cario mwy nag un oen yn mynd ar swêj am gyfnod cyn dod i mewn oddeutu pythefnos i dair wythnos cyn ŵyna. Mae mwy o fanylion am y prosiect yma i weld ar dudalen saith.

I geisio gwneud y defnydd gorau o'r sied, dechreuodd y defaid Hanner Brid ŵyna ar y 10fed o Fawrth, ac yna'r Cymreig ar y 28ain. Drwy ddefnyddio hyrddod cymell, y gobaith yw y bydd y mwyafrif o'r defaid Hanner Brid yn dod yn y cylchdro cyntaf, gan wagio digon ar y sied i ddod a'r defaid Cymreig i mewn wrth iddynt ddechrau ŵyna.

Paul Williams - Cae Haidd, Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio

GWASANAETH CYNGHORI

Mae ein Gwasanaeth Cyngori'n darparu amrediad o gyngor cymorthdaledig, annibynnol, cyfrinachol ac wedi'i deilwra ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth, yn ogystal â busnesau bach a chanolig yn y sector bwyd.

Cyngor un-i-un - wedi'i ariannu hyd at 80%

Cyngor grŵp - wedi'i ariannu hyd at 100%

Etch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/gwasanaeth-cyngori>

Prosiect Parasitoleg Cyswllt Ffermio

MAPIO HALOGIAD PARASITIAID

Mae rheoli llyngyr dan fygythiad oherwydd yr ymwrthedd cynyddol i driniaethau, gyda thystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ffermwyr Cymru yn defnyddio triniaethau sydd ddim yn gweithio heb ddeall hynny, ac ychydig iawn o driniaethau effeithiol sydd ar ôl i ddewis o'u plith. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar berfformiad ŵyn ac mae angen i'r diwydiant fabwysiadu strategaethau newydd i helpu i frwydro yn erbyn llyngyr.

Bydd angen cynyddol i ddeall yr her gan barasitiaid sy'n newid yn gyson ar lefel fferm unigol, gyda mwy o bwyslais ar leihau faint o larfa parasitiaid y mae stoc bregus yn eu bwyta ar borfa, yn hytrach na derbyn her fawr gan y llyngyr a dibynnu ar driniaethau.

Mae un o safleoedd Ffocws Cyswllt Ffermio yn ymchwilio i ddull newydd o ddefnyddio gwybodaeth cyfrif wyau ysgarthol i fapio lle mae llawer iawn o lyngyr a gweithredu camau rheoli a fydd yn helpu i leihau'r baich cyffredinol o lyngyr. Mae Catrin George, sy'n ffermio Tirlan, Brechfa, Sir Gaerfyrddin eisoes wedi newid strategaeth reoli llyngyr y fferm yn sylweddol dros y 2 flynedd diwethaf gan gynnwys cyfrif wyau ysgarthol yn gyson, sydd hefyd yn cael ei argymhell yn egwyddorion arferion gorau SCOPS. Trwy ddefnyddio'r system FECPAK2 ar y fferm, mae Catrin wedi cwblhau rhwng 50 ag 80 o brofion y flwyddyn a gweld manteision o ran targedu gwell ar driniaethau a dim ond defnyddio triniaethau effeithiol. Bydd y prosiect yn hybu hyn ymhellach trwy ddefnyddio'r data cyfrif wyau a gasglwyd yn barod i fapio halogiad yr wyau. Os canfyddir caeau â baich mawr gellid defnyddio'r strategaethau rheoli canlynol (*lle bo'n ymarferol*).

• OSGOI PORI GYDA STOC BREGUS

– e.e. ŵyn sy'n tyfu / pesgi

• TRAWSBORI GYDA MATH O STOC SYDD DDIM YN FREGUS I LANHAW'R LARFA HEINTUS

– e.e. gwartheg neu famogiaid sych


• GORFFWYS RHAG PORI

– e.e. defnyddio i gynaeafu gwair / silwair

• OSYNAIL-HADU – CYFLWYNO PORTHANT MWY NEWYDD SY'N LLAI DENIADOL I LARFA HEINTUS

– e.e. ysgellog a llyriad.

Mae Catrin eisoes wedi canfod halogiad sylweddol gan famogiaid ar ôl ŵyna cyn iddynt gael triniaeth yn hwyr yn y gwanwyn. Arweiniodd hyn at newid amseriad dôs y mamogiaid yn y gwanwyn a ddylai arwain at lai o faich yn y borfa dros amser. Hefyd, os cofnodir cyfrif uchel iawn o wyau ysgarthol, mae'n ceisio pori'r cae hwnnw gyda gwartheg a / neu famogiaid sych y tro nesaf cyn troi'r ŵyn yn ôl yno. Bydd rhagor o ganlyniadau ar gael yn ystod yr haf gyda'r nod o asesu problemau ymarferol a manteision y dull hwn ar y fferm.



PESGI / GORFFEN GWARTHEG YN 18 MIS AR BORTHANT

Mae anifeiliaid iau yn fwy effeithlon am drosi egni (porthiant) yn gig. Mae eu cymhareb drosi porthiant yn cynyddu wrth iddynt fynd yn hŷn a chynyddu pwysau gan fod angen rhagor o ynni i'w cynnal. Gall gorffen gwartheg yn gynharach (<18 mis) leihau cyfanswm y costau porthiant, yr ôl troed carbon ac yn bwysig, gynig cynnyrch mwy brau a chyson i'r prynwyr (Law, 2016).

Er mwyn cyflawni pwysau lladd o 600kg erbyn 18 mis mae angen cynnydd mewn pwysau byw dyddiol o 1.0kg y dydd. Gellir cyflawni hyn yn sicr ond mae angen cynllunio a rheoli i ddarparu porthiant o ansawdd a lleihau unrhyw gyfnod pan na fydd yr anifail yn tyfu ar y gyfradd darged.

Glaswellt wedi ei reoli'n dda yw'r math rhataf o borthiant, ac yna silwair o safon dda (AHDB, 2017). Bydd system sy'n canolbwyntio ar wneud y defnydd mwyaf o'r rhain yn cyflawni targedau o ran cynnydd pwysau dyddiol ond hefyd yn is o ran costau a bydd yr elw gros yn fwy. Dyma'r sail ar gyfer y prosiect ar Safle Arddangos Cyswllt Ffermio, Orsedd Fawr, lle bydd pori cylchdro yn cael ei ddefnyddio i helpu i gynnal safon y borfa.



Mae'r graff yn dangos y llwybrau tyfu targed ar gyfer systemau gorffen yn 16, 18 ac 20 mis. Dangosir y cyfartaledd tyfiant a gyflawnwyd ar Orsedd Fawr hefyd. O'u geni i'w diddychu yn 180 diwrnod, llwyddodd Orsedd Fawr i gael cynnydd pwysau dyddiol o 1.16kg, dros y targed o 1.08kg a oedd yn cynnig byffer ar gyfer yr atal ar ôl diddychu pan ddisgynnodd y cynnydd pwysau dyddiol i 0.97kg. Gwelwyd gostyngiad arall yn y cynnydd dyddiol i 0.56kg wedi i ddwysfwrdd gael ei dynnu o'r diet. Mae hyn dan y targed ar ôl diddychu o 0.97kg ac felly, i gyrraedd y pwysau targed o 600kg rhaid i'r cynnydd pwysau dyddiol ar gyfartaledd fod yn 1.05kg erbyn hyn.

Mae'r enghraifft hon yn dangos pa mor bwysig yw pwyso yn gyson, heb hynny ni fyddai'r gostyngiad hwn yn eu perfformiad wedi cael ei ganfod ac mae'n golygu bod modd gweithredu'n awr. Gyda digon o borfa dda ar gael bydd cyfran o'r gwartheg yn cael eu troi allan ac yn cael cynnig 10 kg/DM/ha y dydd i sicrhau bod digon o egni ar gael i gyflawni'r cynnydd pwysau yn ôl y targed.


Law, R. 2016. Sustainable Beef Production. Online. Available from: http://www.othamsted.ac.uk/sites/default/files/groups/Knowledge_Exchange_and_Commercialisation/updates/pdf/3C_Ryan%20Law%20-%20Dunbia.pdf.

AHDB. 2017. Online. Available from: https://dairy.ahdb.org.uk/technical-information/grassland-management/making-more-from-your-grass/#:~:text=WMBWP_njilU

MONITRO CNYDAU MANWL-GYWIR

Mae'r dechnoleg fwyaf newydd yn cael ei defnyddio mewn prosiect ffermio manwl-gywir ar Safle Arddangos Cyswllt Ffermio, Plas, Llandegfan, Ynys Môn gyda'r nod o gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant glaswelltir a chnydau tir â'r fferm.

Mae'r prosiect yn cynnwys mapio 150 erw o dir â'r cymysg a glaswelltir gyda sganiwr sy'n mesur gallu'r pridd i drawsgludo trydan ar ddyfnder o 30cm a 90cm i greu map yn dangos yr amrywiaeth o briddoedd mewn cae. Bydd y cae wedyn yn cael ei rannu yn barthau rheoli yn ôl amrywiaeth y pridd a bydd pob parth yn cael ei samplu i bennu ei statws o ran maetholion a gwead y pridd. Nitrogen, Potasiwm, Ffosffad a pH yw'r maetholion a dargedir yn y prosiect ac yn ôl y dadansoddiad, gall y mewnbyn gael ei amrywio ar bob parth, i gyflawni'r cynnyrch gorau o bob cae.



Bydd y ffermwr, Arwyn Jones, yn cofnodi'r holl fewnbyn a roddir ar y tir a bydd meddalwedd yn cyfrifo allbwn o ran cnwd, defnydd tir a chynnyrch, gan roi cyllideb faetholion gywir. Bydd swm y maetholion a ychwanegwyd yn cael ei gymharu â'r rhai a fyddai wedi cael eu hychwanegu gan ddefnyddio dadansoddiad pridd arferol i'r cae cyfan, i weld a wnaed unrhyw arbediadau.

Fel rhan o'r prosiect, bydd delweddau lloeren Mynegai Llystyfiant Cysoni Gwahaniaeth (NDVI) yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad y cnwd. Ar hyn o bryd dim ond yr amrywiaeth o llystyfiant mewn cae penodol y mae'r dechnoleg hon yn ei gynig, yn hytrach na'r gwir gynnyrch, ond gobeithir y bydd yn gallu cyfrifo tDM/ha yn fuan. Mae

strwythur y pridd yn ffactor allweddol wrth sefydlu cnwd a'r hyn y bydd yn ei gynhyrchu, ac mae delweddau lloeren yn offeryn defnyddiol i ganfod ardaloedd lle mae'r pridd wedi ei gywasgu mewn cae.

Bydd y meddalwedd hefyd yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Maetholion manwl sydd yn 'ddogfen fyw', gan ystyried holl gylch maetholion cae penodol.

ASESU COLLEDION PORTHY BYRNAU MAWR

- Prosiect Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio Cae Haidd, Gaeaf 2017



Gwyddom bod llai o golledion gyda silwair mewn byrnau wrth ei gynhyrchu o'i gynaeafu yn y cae i'w storio. Gwyddom hefyd bod llai o golledion trwy ddifetha aerobig wrth ei borthi. Mae'r ffactorau hyn i gyd oherwydd y ffaith eu bod yn cael eu selio yn gyflym ac, ar ôl eu hgor, yn cael eu porthi yn gymharol gyflym. Ond yr hyn nad yw'n hysbys yw'r colledion wrth borthi, yn bennaf oherwydd bod yr anifeiliaid yn tynnu gormod o silwair o'r porthwyr a hwnnw wedyn yn mynd ar lawr ac yn cael ei sathru yn hytrach na'i fwyta.

Nod y prosiect hwn oedd asesu faint o silwair sy'n cael ei wastraffu o fynau silwair glaswellt sy'n cael eu porthi yn gyfan o borthwyr crwn yn y cae i famogiaid hanner brid Cymreig gyda phwysau byw ar gyfartaledd o 65kg. Rhedodd y prosiect o ddechrau Ionawr i ganol Chwefror, yr amser a gymerodd i borthi 5 o fynau mawr silwair i bob grŵp.

Defnyddiwyd dau faint grŵp gwahanol, 30 a 60 o famogiaid cyfeb ar yr un pryd mewn caeau cyfagos ar yr un fferm. Yn union cyn rhoi'r byrnau yn y porthwyr roeddent yn cael eu pwyso a chymerwyd sampl craidd ohonynt. Yn ddyddiol wedyn byddai'r holl silwair ar lawr tu allan i'r porthwr yn cael ei gasglu a'i bwyso, roedd hwn yn cael ei samlo wedyn a'i ddadansoddi gan ddefnyddio NIR silwair safonol. Yn ychwanegol at hynny roedd sampl yn cael ei chymryd o'r byrnau yn ddyddiol i'w dadansoddi a chofnodwyd tymheredd y

byrnau. Cofnodwyd hefyd y tymheredd a'r glawiad yn ddyddiol.

Dengys y canlyniadau cynnar bod y grŵp bach o ddefaid yn cymryd tua 8 diwrnod i fwyta un o'r byrnau i gyd a bod y grŵp mawr yn cymryd rhwng 4 a 5 diwrnod. Ond, o ran y silwair a wastraffwyd roedd 17.32% o'r silwair yn y byrnau yn cael ei wastraffu yn y 2 ddiwrnod cyntaf gan y grŵp o 60 o famogiaid, mewn cymhariaeth â 10.88% yn y grŵp o 30 o famogiaid. Ond fe wnaeth y byrnau oedd yn cael eu bwyta gan y grŵp bach ddangos tystiolaeth o dwymo ar ôl 4-5 diwrnod a all effeithio ar werth y porthiant, ond gyda'r grŵp mawr roedd llawer llai o dystiolaeth o dwymo. Er nad oes gwahaniaethau amlwg o ran treuliadwydd na chynnwys ME rhwng y silwair a'r silwair a wastraffwyd, mae tystiolaeth o ryw wahaniaeth yn y cynnwys protein gyda'r silwair a wastraffwyd yn y grŵp mawr ychydig yn uwch o ran cynnwys protein na'r silwair oedd yn cael ei borthi, tra bod yr arwyddion cynnar yn y grŵp bach yn awgrymu nad oes gwahaniaethau yng nghynnwys protein y silwair sy'n cael ei wastraffu a'r silwair sydd i gael ei fwyta.

Cychwynnol yw'r holl ganlyniadau hyn ar hyn o bryd a bydd adroddiad llawn yn cael ei lunio ar ôl gorffen porthi a dadansoddi'r data yn llawn, ond mae'r canlyniadau hyd yn hyn o bwysigrwydd mawr a byddant yn cyfiawnhau rhagor o astudiaethau i ddeall a chynnig atebion i'r problem.

ASTUDIAETH ACHOS FFRWYTHLONDEB Y FUCHES LAETH

- Mae targedu gwelliannau ffrwythlondeb yn y fuches laeth yn helpu ffermwyr i dorri costau a rhoi hwb i berfformiad

TRWY DARGEDU gwelliannau o ran ffrwythlondeb mae aelodau o Grŵp Trafod Laeth Cyswllt Ffermio wedi arbed arian, cynyddu'r laeth y maent yn ei gynhyrchu a lleihau aneffeithlonrwydd. Arbedodd un aelod fwy na £50,000 y flwyddyn trwy leihau'r bwlch rhwng lloea yn ei fuches.

Mae'r grŵp yn Ne Ddwyrain Cymru yn cyfarfod yn gyson i fonitro eu perfformiad mewn cymhariaeth ag ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau, gan gynnwys y bwlch lloea, cyfradd cyflo 100 diwrnod, y gymhareb rhwng troi at y tarw a'r ganran o wartheg oedd yn gyflo cyn pen 65 diwrnod.

"Mae gwellu ffrwythlondeb yn fanteisiol ar bob uned laeth bron ond mae'n cymryd amser i welliannau gael eu cyflawni," meddai'r ymgynghorydd laeth Dr Tom Chamberlain, sy'n gweithio gyda'r grŵp. "Y dangosydd perfformiad allweddol pwysicaf yw'r bwlch lloea. Mae'r fantais ariannol o leihau'r bwlch lloea tua £3 y fuch y dydd, felly byddai gostyngiad o 20 diwrnod ar uned 100 buwch yn werth £6,000 – yn bennaf trwy gael mwy o laeth i'w werthu," dywedodd Dr Chamberlain.

Ers Tachwedd 2014, mae'r bwlch lloea ar gyfartaledd i'r 12 o ffermydd wedi gostwng o wyth diwrnod, sy'n arbediad o £24 i bob buwch. Lleihodd Ross Edwards, o New Dairy Farm, Casnewydd, ei fwlch rhwng lloea o 33 diwrnod o 430 i 397 diwrnod. Gyda chyfartaledd maint y buchesi yn 578 o fuchod yn ystod y cyfnod monitro, mae hyn yn arbediad o £57,222.

Roedd Ross am wella ffrwythlondeb ei fuches yn dilyn problem gyda semen gwael. *"Tanlinellodd hynny bwysigrwydd ffrwythlondeb i berfformiad cyffredinol y fuches,"* dywedodd.

Mae Ross hefyd wedi lleihau'r ganran o fuchod yn y fuches sydd â bwlch lloea o fwy na 480 diwrnod o 21.3% i 12.2% a chynyddu'r ganran o'r fuches sy'n cyfloi erbyn 65 diwrnod i 59%. Mae'n targedu bwlch lloea sy'n llai na 380 diwrnod eleni.

I ddarllen yr erthygl yn llawn ewch i wefan Cyswllt Ffermio - www.llyw.cymru/cyswlltffermio





Prosiect Arweinyddiaeth a rheolaeth staff Cyswllt Ffermio

BETH?

Mae rheolwyr buchesi llaeth a ffermwyr wastad wedi bod yn dda iawn am reoli eu gwartheg a dysgu sgiliau newydd pan fydd angen i wella pa mor gyfforddus yw'r buchod a chynhyrchiant y fferm. Ond wrth i nifer gynyddu maint eu buchesi a hefyd y staff llawn a rhan-amser sydd yn angenrheidiol i gyd-fynd â'r cynnydd hwnnw, gall recriwtio a rheoli'r elfen ddynol weithiau fod yr un mor anodd.

PAM?

Mae Marian Mawr yn Nyserth yn un fferm o'r fath sy'n cynnal prosiect Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn edrych ar strategaethau a ffyrdd o wella a gwneud y berthynas waith yn fwy proffesiynol ar ffermydd llaeth canolog a mawr.

PWY?

Ynghyd â'r ffermwyr Aled Morris a'i deulu mae pedwar o staff llawn amser a phedwar o staff rhan-amser yn rhedeg yr uned 400 buwch trwy'r

flwyddyn. Mae'r tîm yn gweithio'n glos gyda Heather Wildman o Saviour Associates i ddatblygu protocolau, disgrifiadau swyddi ac arferion adnoddau dynol eraill a wnaiff weithio a fydd yn helpu i recriwtio, datblygu a chadw staff y fferm.

SUT?

Mabwysiadwyd cyfarfodydd tîm ar fore dydd Llun yn barod i gynllunio'r wythnos sydd o'u blaenau ac i drafod unrhyw broblemau mewn lleoliad mwy cynhwysol ac effeithiol. Defnyddiwyd teitlau swyddi ychwanegol hefyd fel rheolwr stoc ifanc a hwsmon cynorthwyol er mwyn i'r gweithwyr gael meddiant a chyfrifoldeb am agwedd benodol o'r busnes. Mae llawlyfr i weithwyr fferm yn cael ei ddatblygu hefyd a bydd protocolau eraill yn cael eu cyflwyno trwy gydol blwyddyn nesaf y prosiect. Bydd adolygiad o'r camau hyn a weithredwyd yn cael ei gynnal yn gyson a bydd yr effeithiau yn cael eu rhannu yn ystod dyddiau agored a chyfarfodydd trafod ar raddfa lai o haf 2017 ymlaen.

Ffynhonnell: NMR Genetracker

Profi genomig yn Marian Mawr

Fel rhan o'r rhwydwaith safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio, cynhaliodd Marian Mawr brofi genomig ar eu cnwd cyfan o loeau heffrod 2016. Cymerwyd samplau bach o feinwe clust y lloeau heffrod newydd eu geni wrth eu tagio.

Canlyniadau

Yn gyffredinol mae'r canlyniadau yn y tabl isod yn dangos grŵp o loeau a fydd yn datblygu yn fuchod proffidiol wrth gynhyrchu llaeth gyda chynnyrch llaeth cymedrol a chyfrif celloedd isel sy'n cyfloi yn gymharol rwydd. Mae amrywiaeth mawr yn y mynegai oes broffidiol (EPLI) o £235 rhwng y llo gyda'r mynegai gorau (tag 3292 gyda £380 Mynegai Oes Broffidiol Genomig) a'r isaf (tag 3307 gyda £45 GPLI). Mae amrywiaeth mawr hefyd yn y % kg o gynnyrch llaeth ac chynhwysion.

NODWEDD	Cyfartaledd GPTA (<i>Gallu Trosglwyddo a Ragwelir Genomig</i>) 2016 o heffrod a brofwyd ar Marian Mawr
GPLI (<i>Mynegai Oes Broffidiol Genomig</i>)	£189
Mynegai Ffrwythlondeb	+4.8
Oes	0.2
Kg Llaeth	123kg
Kg Braster	5.6kg
Kg Prot	4.8kg
% Braster	0.01%
% Prot	0.01%
Mynegai SCC	-6.2

Pa benderfyniadau ellir eu gwneud o'r canlyniadau a gawsoch?

Cyn defnyddio'r data a gasglwyd mae'n bwysig bod gan y fuches nod bridio clir a strategaeth yn ei lle. Gall hyn fod yn seiliedig ar ffactorau amrywiol gan gynnwys y math o gontract (e.e. *ar sail cyfaint neu elfennau*), trefn borthi, cyfyngiadau yn y siediau (e.e. *maint y ciwbiclau*), dewis personol o ran brîd a math, marchnata (*gwerthu gwared yn gyson*).

Gall y dewisiadau posibl gynnwys y canlynol:

1. Gwerthu heffrod – gall gwerthu'r anifeiliaid isaf eu safon genynnol leihau costau magu'r fuches yn sylweddol.
2. Casglu Embryonau o'r heffrod gorau – yn cynyddu cyflymder y gwelliant genynnol ac hefyd yn cynnig cyfleoedd i werthu.
3. Defnyddio heffrod i gymryd embryonau – cynyddu'r nifer o loeau o safon uchel yn enynnol sy'n cael eu geni.
4. Rhoi tarw potel biff i'r heffrod salaf o ran rhinweddau genynnol - gan gynyddu gwerth lloeau gwryw yn sylweddol.
5. Dewis tarw yn ofalus i ychwanegu neu gywiro unrhyw gryfderau a gwendidau yn y GPTA – galluogi'r bridwr i ddewis tarw addas i ychwanegu at gryfderau'r heffer a chywiro gwendidau.



GALL FFERMIO MANWL-GYWIR HELPŲ I WELLA PERFFORMIAD BUSNES

GALL GWELLA cywirdeb gweithrediadau fferm trwy ffermio manwl-gywir fod yn fuddiol o ran effeithlonrwydd a phroffidioldeb y busnes pan ddefnyddir technolegau addas. Er bod angen buddsoddi yn sylweddol mewn rhai offer ffermio manwl-gywir, mae technegau syml hefyd ar gael y gall pobl eu defnyddio i helpu i wella tyfiant a chynnyrch y cnwd.



Y tri phrif faes o ran ffermio manwl-gywir yw rheoli tractor a pheiriannau, agronomeg targedu a rheoli data. Mae gwella cywirdeb rheoli caeau trwy ddefnyddio technoleg fel dyfeisiadau GPS a synwryddion chwalu ar gyfraddau amrywiol ar dractors a pheiriannau yn helpu i leihau gorgyffwrdd wrth weithio ac yn sicrhau'r defnydd gorau o amser. Ond, bydd cam syml fel mesur lled llwybrau peiriannau trwy gaeau yn helpu i wella cywirdeb trwy weithio ar fesuriadau gwirioneddol yn hytrach nac amcangyfrifon.

"Mae ffermio manwl-gywir yn ddefnyddiol i helpu i wella proffidioldeb eich busnes, prydlondeb a chywirdeb y gweithredu ac effaith amgylcheddol cynhyrchu cynydau. Un lle da i gychwyn yw edrych pa mor gywir ydych chi yn awr cyn buddsoddi o gwbl. Yna gallwch ddewis y dechnoleg fwyaf addas a fydd yn eich helpu i wneud eich gwaith yn well," dywedodd yr Ymgynghorydd Ffermio Manwl-gywir Ian Beecher-Jones wrth ffermwyr mewn digwyddiad ar y cyd a drefnwyd gan Cyswllt Ffermio ac AHDB Cereals & Oilseeds.

Mae agronomeg targedu yn golygu deall amrywiadau pridd mewn cae. Mae mapio gwedd y pridd a synwryddion sy'n profi statws y maetholion yn helpu i greu parthau mewn cae lle gellir amrywio cyfraddau hadau neu fewnbwn yn ôl yr hyn sydd ei angen.

Mae'r gallu i reoli'r data a dderbynnir trwy offer ffermio manwl-gywir yn hanfodol er mwyn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus a chywir yn y cae. Roedd Mr Beecher-Jones yn annog pobl i gadw pethau'n syml, gan greu 'fferm ddigidol' sy'n adlewyrchu'r fferm wirioneddol yn gywir a thrwy gael un lle i gasglu a storio'r wybodaeth. Dros amser bydd gwybodaeth aml-haenog am y fferm yn cael ei chasglu i helpu ffermwyr i weld ble y gellir gwneud rhagor o welliannau.



Galw mawr am Hopys a dyfwyd yng Nghymru

Mae poblogrwydd cwrw crefft a micro-fragu wedi tyfu'n eithriadol dros y blyneddau diwethaf- erbyn hyn mae dros 1,000 o ficro-fragdai yn y Deyrnas Unedig, y ffigwr uchaf ers mwy na 70 mlynedd, gyda'r nifer o fragdai gweithredol bron yn ddwbl yr hyn a welwyd ddegawd yn ôl. Er gwaethaf y ffyniant hwn, mae'r rhan fwyaf o hopys Prydain yn cael eu cynhyrchu mewn dwy ardal draddodiadol, Canolbarth Lloegr a De Ddwyrain Lloegr.

Tanlinellodd adroddiad i grŵp bwyd Cywain yn 2015 y ffeithiau canlynol:

- 88 micro-fragdy yng Nghymru
- 82% â diddordeb mewn prynu hopys o Gymru
- mwy na 50% o fragdai yn barod i dalu premiwm am hopys o Gymru

Rhaid i hopys gael priddoedd da a hinsawdd mwyn morol gyda glawiad cyson trwy'r flwyddyn. Gwelwyd pwyslais arbennig ar ymchwil a datblygu mathau newydd o hopys dros yr 20 mlynedd diwethaf gan gynyddu'r nifer o fathau a dyfir yn fasnachol o 13 i 27. Bridiwyd mathau Prydeinig o hopys i wrthsefyll afiechyd, a'r system dyfu trellis isel, sy'n fwy cost effeithiol, a ddatblygwyd yn y Deyrnas Unedig ac sy'n cael ei efelychu trwy'r byd.

Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig digwyddiadau canfod ffeithiau ar dyfu hopys yr haf hwn. Hefyd, bydd ymuno â grŵp Agrisgôp yn rhoi cyfle i chi ystyried dewisiadau arallgyfeirio mewn grŵp o bobl o'r un meddylfryd.

DIGWYDDIADAU

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD	CYSWLLT
18/04/17	Rheolaeth staff - Denu a chadw gweithwyr da	19:30 - 21:30	The Coldra Court Casnewydd, NP18 1HQ	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
19/04/17	Rheolaeth staff - Denu a chadw gweithwyr da	11:00 - 14:30	The Forge, St Clears, Caerfyrddin, SA33 4NA	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
19/04/17	Rheolaeth staff - Denu a chadw gweithwyr da	19:30 - 21:30	Cleddau Bridge Hotel, Pembroke Dock, SA72 6EG	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
26/04/17	Arloesedd mewn diogelwch fferm	11:00 - 14:00	Trawscoed Farm, Aberystwyth, SY23 4LL	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
03/05/17	Ffermio Manwl Gywir, Technoleg Drôn a Robotiaid	19:30 - 21:30	Pavilion, Hwlfordd, SA62 4BW	Delana Davies 07811 261628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
03/05/17 <i>Sesiwn y bore a phrynhawn</i>	Rheoli Brwyn ac Arddangosfa Ymarferol o ddefnyddio Weed Wiper	10:00 - 12:30 13:00 - 15:30	Tynyberth, Abbeycwmhir, Llandrindod Wells, LD1 6PU	Catherine Nakielny 07985 379890 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk
04/05/17	Tair gerdded Glaswelltir a Rheoli Parasiaid mewn ŵyn sy'n tyfu	16:00 - 18:00	Great Tre-rhew Farm, Abergavenny, NP7 8RA	Menna Williams 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
09/05/17	Rheoli glaswelltir ar gyfer silwair: <i>Charlie Morgan a Dave Davies</i>	11:00 - 14:00	Gower Golf Club, Cefn Golau, Gowerton, Three Crosses SA4 3HS	Jamie McCoy 07985 379819 jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk
12/05/17 <i>Sesiwn y bore a phrynhawn</i>	Rheoli Brwyn ac Arddangosfa Ymarferol o ddefnyddio Weed Wiper	10:00 - 12:30 13:00 - 15:30	Aberbranddu, Cwrt y Cadno, Pumsaint, Llanwrda, SA19 8YE	Menna Williams 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
20-21/05/17	Ffair Wanwyn CAFC - Arddangosfeydd moch gyda Bob Stevenson	11:00 - 14:00	Royal Welsh Showground, Builth Wells, LD2 3SY	Gwawr Hughes 07896 996841 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk
24/05/17	Rheolaeth glaswelltir ac isadeiledd pori ar ffermydd yr ucheldir	14:00 - 16:30	Bodrach, Carmel, Llanrwst, Conwy, LL260NY	Emyr Owen 07415 757461 emyr.owen@menterabusnes.co.uk
25/05/17	Defnyddio nodweddion carcass genomeg a myostatin mewn bridio biff	11:00 - 14:00	Glangwden, Caersws, SY17 5PX	Delana Davies 07811 261628 delana.davies@menterabusnes.co.uk